

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref Llanelltyd  
Nos Fawrth, Ebrill 9, 2019 am 7.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cyngorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Elfed ap Gomer, Carwyn Evans, Simon Evans. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Ymddiheuriadau:** Llinos Williams, Gethin Williams, Gareth Ellis, John Hughes, Paul Williams. Hefyd Peredur Jenkins.

**2. Datgan diddordeb:**

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth 12, 2019**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion Mawrth 12, 2019**

Eitem 10.b. Llythyr ateb (20/3/2019) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn rhoi gwybod:

i. mae ein cais am ysgubo'r llwybr sydd ar ochr ffordd A470 o'r Pil i Bont Wnin, Llanelltyd wedi ei anfon i Asiantaeth Cefnffyrdd.

ii. mae ein cais am ysgubo'r ffordd a chlirio draeniau yn Taicynhaeaf yn cael eu harchwilio.

Cafodd gwaith da ei wneud i ysgubo'r ffordd.

iii. mae ein cais i atal dŵr lifo i'r ffordd o'r llwybr cyhoeddus ger Ar-y-Graig yn cael ei archwilio gan Uned Hawliau Tramwy.

Eitem 4. Eitem 5.e. Roedd camgymeriad wedi ei wneud gyda thaliad i Mr G.W. Jones. Rhoddwyd taliad o £62.80 a ddim £62.40.

Cafwyd wybod gan y Banc roedd camddealltwriaeth wedi ei wneud trwy ddarllen y siec. Mae'r Banc wedi cywiro'r camgymeriad trwy roi 40p yn ein cyfrif.

Eitem 5.i. Cafwyd gwybod (1/4/2019) mai gwaith cynnal a chadw bydd yn cael ei wneud ar y llwybr a ddim gwaith sylweddol.

Eitem 8.a. Llythyr (3/4/2019) oddi wrth Uwch Syrfewr Stadau, Cyngor Gwynedd yn ymwneud â safle Ysgol Clogau. Maent yn rhoi gwybod bydd hysbyseb ynglŷn ag olynwyr y safle yn ymddangos yn y Cambrian News wythnos yma a'r Times a'r Telegraph dros y penwythnos.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION EBRILL 9, 2019

Eitem 10.ch. Lythyr (8/4/2019) oddi wrth Paul Williams. Mae'n ymddiheuro am fod yn absennol o'n cyfarfodydd ac mae hyn oherwydd ei waith gyda'r bad achub yn Abermaw. Mi wneith ymdrech i fod yn bresennol yn ein cyfarfod heno. Mae yn dymuno parhau fod yn aelod o'r Cyngor.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Paul Williams am reol Eitem 3(iv) Cyfarfodydd Sefydlog yn Rheolwr Sefydlog y Cyngor nid yw'n aelod o'r Cyngor mwyach. Mae'r rheol yn dweud 'Bydd aelod yn peidio â bod yn aelod os yw'n methu mynychu cyfarfodydd am gyfnod o 6 mis dilynol'.

### **5. Materion Ariannol**

a. Llythyr (18/3/2019) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn cynnwys:

i. Copi o P60 am y flwyddyn yn diweddu 5/4/2019.

ii. Bil am £192.00 am gwblhau PAYE am y flwyddyn yn gorffen 5/4/2019 ac am gyflwyno cyflog misol i HMRC ar-lein i gydymffurfio â RTI a pharatoi Tystysgrif Diwedd y Flwyddyn P60.

Penderfynwyd talu'r bil.

iii. Taliad misol i'r Clerc o Ebrill - £99.64  
Taliad misol i'r Cyllid a Thollau - £24.80.

$12(\pounds99.64 + \pounds24.80) = \pounds1,493.28$  y flwyddyn (gweler Eitem 8.d. Cofnodion 15, 2019).

Arwyddwyd dwy ffurflen HSBC yn rhoi gwybod am y taliadau i wneud.

b. Llythyr (19/3/2019) oddi wrth Rheolwr Archwilio, Cyngor Gwynedd eisiau gwybod pryd fydd ein cyfrifon a'r dogfennau perthnasol ar gael ar gyfer eu harchwilio.

Rhodddwyd gwybod (4/4/2019) iddynt bydd ein cyfrifon a'r dogfennau perthnasol ar gyfer eu harchwilio ar gael wythnos wedi ein cyfarfod.

c. Llythyr (18/3/2019) oddi wrth Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau yn diolch am ein rhodd o £50.

d. Derbyniwyd (21/3/2019) £85 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf. at ail osod beddfaen ar y diweddar Jean Violet Lowmass.

dd. Bil (18/3/2019) Treth Annomestig Genedlaethol ar gyfer 2019/20 tuag at Public Conveniencs Bontddu oddi wrth Cyngor Gwynedd. Mae'n cael ei dalu trwy Direct Debit. Taliad 10.04.2019 = £23.33, ac yna £24.00 y mis (am 9 mis). Cyfanswm yn £239.33 (llynedd y cyfanswm oedd £233.87).

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION EBRILL 9, 2019

e. Llythyr (28/3/2019) a Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 oddi wrth BDO LLP (Archwiliwr Allanol). Angen cwblhau'r ffurflen flynyddol a gwybodaeth sydd ei angen erbyn Gorffennaf 1.

Mae angen i'r Swyddog Ariannol â Chyfrifoldeb (RFO) ardystio'r Ffurflen Flynyddol erbyn Mehefin 30.

Mae angen arddangos yr hysbysiad archwilio mewn lle amlwg ac ar ein gwefan cyn Mehefin 16 a'i arddangos hyd at Orffennaf 1.

Maent angen:

Cysoniad banc ar Fawrth 31 2018.

Esboniad am amrywiannau rhwng cyfrifon 2018-19 a 2018-17 yn Ffurflen Flynyddol 2018-19.

Esboniad o unrhyw wahaniaethau rhwng cyfrifon 2017-18 a nodwyd ar Ffurflen Flynyddol 2018-19 a chyfrifon 2017-18 a nodwyd ar Ffurflen Flynyddol 2017-18. Ffotograff yn dangos yr hysbysiad archwilio wedi cael ei arddangos mewn lle amlwg. Rhestr o bwyllgorau a sefydlwyd gan y corff – nid oes pwyllgorau wedi eu sefydlu.. Cylch gorchwyl pob pwyllgor – nid yw'n berthnasol..

Rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol (neu eu cyfwerth) y corff.

Ar gyfer yr holl contractau a ddyfarnwyd yn 2018-19, tystiolaeth bod y corff wedi cydymffurfio â'i reolau sefydlog e.e. copi o'r hysbyseb, adroddiadau i'r corff a chofnodion yn cymeradwyo dyfarno'r contract – nid oedd contractau wedi eu dyfarnu yn 2018-2019.

Arwyddwyd y Cadeirydd y Ffurflen Flynyddol ac archwilwyd y ffurflen gan yr aelodau.

Amgáu mae llythyr (Mawrth 2019) oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi gwybod fe godwyd gormod mewn ffioedd ar lawer o gynghorau gan BDO am archwiliadau 2016-17 a 2017-18 o ddeutu £10. Roedd hyn oherwydd camgymeriad gweinyddol gan BDO. Bydd ad-daliad yn cael ei roi ar y ffi a godir am archwiliad 2018-19.

f. Anfonwyd (5/4/2019) copi o'r adroddiad 'Cyfrifon Cyngor Cymuned Llanelltyd 2018 – 2019' i'r aelodau.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

ff. Bil (3/4/2019) am £192.00 oddi wrth Gwasanaeth Tir a Choed am glirio coed yn Ty'n Cornel, Bontddu. Bydd gwaith clirio coed rhwng Cae Beudy a Llyn Tan y Graig, Llanelltyd yn cael ei wneud gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Gweler eitem 4. Eitem 10.a. Cofnodion Mawrth12, 2019.

Penderfynwyd talu'r bil.

g. Balans yn y banc ar 29 Mawrth, 2019: £6,836.19.

### **6. Mynwent Llanelltyd**

Nid oedd adroddiad.

### **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

Nid oedd adroddiad.

### **8. Gohebiaeth**

a. Llythyr (18/3/2019) oddi wrth Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Cyngor Gwynedd gyda manylion ar gyfyngiadau parcio arfaethedig wrth Ysgol Llanelltyd. Os mae sylwadau ar y cynllun mae'r Gwasanaeth eu hangen cyn 5/4/2019.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (20/3/2019) oddi wrth Uned Gyfreithiol, Cyngor Gwynedd gyda Rhybuddion Cyhoeddus yn gwahardd a chyfyngu aros a manau parcio gan gynnwys ar ochr y ffordd wrth Pont Wnin. Bydd dim aros ar unrhyw adeg.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Mae gwaith peintio llinellau melyn wedi ei gyflawni.

c. Llythyr (19/3/2019) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn rhoi gwybod bydd gwaith:

1. newid colofnau golau stryd a thyllu ar yr A496 yn Bontddu,
2. gosod giat wrth Pont Figra.

ch. Llythyr (29/3/2019) oddi wrth Liz Saville Roberts AS yn amgáu adroddiad ar Ymgynghoriad Hedfan Isel yn ne Meirionnydd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

d. Llythyr (1/4/2019) oddi wrth Uned Gyfathrebu ac Ymgysylltu, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Credyd Cynhwysol (Universal Credit) newydd y Llywodraeth yn cael ei gyflwyno yn raddol yng Ngwynedd. Amgáu mae posteri yn rhoi gwybod am y newidiadau ac i'w harddangos mewn llefydd cyhoeddus.

dd. Llythyr (9/4/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am Digwyddiad ar y Cyd rhwng Un Llais Cymru / SLCC (Society Of Local Council Clerks) bydd yn cael ei gynnal yn Stadiwm Liberty, Abertawe ar 15 Mai 2019. Mae'r cyfarfod i'r Cynghorwyr a Chlercod.

Anfonwyd y copi o'r llythyr ymlaen i'r aelodau.

## **9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins**

Nid oedd adroddiad.

## **10. Materion Brys**

a. Galwad ffôn (21/3/2019) oddi wrth Elfed ap Gomer ynglŷn â chwyn derbyniodd am waith tyllu sy'n cael ei wneud ar dir Anwylfa, Taicynhaeaf. Mae'r gwaith yn cynnwys symud pridd a cherrig, gan gynnwys wal, i lefelu tir. Mae'r wal yn cynnal tir, ddim y ffordd.

Anfonwyd y neges ymlaen i Priffyrdd a'r Parc i gael gwybod os mae un i gael caniatâd i wneud gwaith o'r fath neu gyflwyno cais cynllun.

Llythyr ateb (25/3/2019) oddi wrth y Par yn rhoi gwybod bydd ymchwiliad yn cael ei roi i'r mater.

Llythyr ateb (2/4/2019) oddi wrth y Parc yn rhoi gwybod cafodd Swyddog cyfarfod gyda pherchnogion Anwylfa. Maent yn bwriadu creu man parcio oddi ar y ffordd, a chodi wal gynnal ar hyd rhan gefn yr ardd. Cafodd y perchnogion wybod bydd angen caniatâd cynllunio ac maent yn bwriadu cyflwyno un yn y dyfodol agos.

b. Cafwyd cyfarfod (22/3/2019) yn Swyddfa Priffyrdd, Penarlag ynglŷn â gwasanaeth halen Cyngor Gwynedd. Yn bresennol oedd Mr Adrian W. Williams a Mr Steffan Jones (Adran Priffyrdd) a Peredur Jenkins, Mike Owen (Clerc Cyngor Cymuned Ganllwyd) a Henry Edwards. Wedi'r trafod bydd nodiadau'r cyfarfod yn cael ei baratoi a bydd map yn cael ei baratoi i ddangos lleoliad y biniau halen gan gynnwys rhif bydd ar y biniau.

c. Derbyniwyd cais oddi wrth Mr Causer, Afallon, Bontddu, trwy Carwyn Evans, i'r Cyngor drefnu torri rhododendron a phlanhigion tebyg sy'n tyfu ar y tir triongl rhwng terfyn Afallon a'r ffordd.

Penderfynwyd i ni drefnu'r gwaith a chael pris gan Gwasanaethau Tir a Choed, ac Anderson Tree Specialists Ltd ( Penesgynfa Cottage, Dolgellau, Gwynedd LL40 2LU). Penderfynwyd hefyd i Carwyn Evans paratoi plan yn dangos y tir sydd angen gwaith.

ch. Cafwyd gwybod ((9/4/2019) gan Gethin Williams, trwy'r Cadeirydd, mae Theatr y Ddraig a Chanolfan Gymunedol Abermaw yn diolch am ein rhodd o £50.

-----